BritishRedCross

# Swydd-ddisgrifiad a manyleb y person

| Gweithiwr Cefnogi'r Gwasanaeth Byw'n Annibynnol | | | |
|---|---|---|---|
| **Lefel cyflog** | 1b | **Cyfeirnod y swydd** | |
| **Adran** | Iechyd ac Ymateb i Argyfwng Lleol | **Is-adran** | Gweithrediadau'r DU |
| **Lleoliad gwaith** | | **Yn adrodd i** | Arweinydd Tîm |
| **Hyd y rôl** | | **Diweddarwyd ddiwethaf** | Rhagfyr 2016 |

## Maint a chwmpas y rôl

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Adroddiadau uniongyrchol** | Dim | **Adroddiadau anuniongyrchol** | Dim |
| **Atebolrwydd/ cyfrifoldeb dros gyllidebau** | Dim | **Atebolrwydd dros adnoddau eraill** | Dim |
| **Cwmpas ac effaith** | Bydd gofyn i'r Gweithiwr Cefnogi Byw'n Annibynnol ddarparu cefnogaeth emosiynol ac ymarferol am gyfnod penodol i ddefnyddwyr gwasanaethau. | | |

## Cyd-destun

Mae'r Groes Goch Brydeinig yn helpu pobl sydd mewn argyfwng, pwy bynnag y bônt a lle bynnag y maent. Rydym yn rhan o rwydwaith gwirfoddol byd-eang, sy'n ymateb i wrthdaro, trychinebau naturiol ac argyfyngau unigol. Rydym yn galluogi pobl agored i niwed yn y DU a dramor i wrthsefyll a pharatoi ar gyfer argyfyngau yn eu cymunedau eu hunain. A phan fo'r argyfwng drosodd, rydym yn eu helpu i ddod drosto a symud ymlaen gyda'u bywydau. Yn y DU, mae'r Groes Goch Brydeinig yn gweithredu drwy gyfrwng dros 3000 o staff a dros 20,000 o wirfoddolwyr.

Mae'r gwasanaeth Byw'n Annibynnol (IL) ac Ymateb i Argyfyngau (CR) (IL/CR) yn helpu pobl yn y bwlch rhwng yr ysbyty a'r cartref ac mae'n ymateb i anghenion pobl sydd mewn trallod yn dilyn argyfwng; gan gynnal rhwydwaith helaeth o berthnasoedd allanol ar draws y gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, a gwasanaethau brys.

## Diben cyffredinol y rôl

Bydd swydd y Gweithiwr Cefnogi Byw'n Annibynnol yn darparu cefnogaeth ymatebol, hyblyg a phenodol i oedolion naill ai'n dilyn arhosiad yn yr ysbyty i alluogi iddynt gael eu rhyddhau'n fuan ar ôl bodloni eu hanghenion clinigol neu i oedolion sy'n byw yn y gymuned fel na fydd yn rhaid iddynt fynd i'r ysbyty. Bydd y swydd yn helpu Cydlynydd y Gwasanaeth Byw'n Annibynnol drwy gyflawni'r dyletswyddau sy'n ofynnol i fodloni anghenion defnyddwyr gwasanaethau er mwyn ail-alluogi defnyddwyr gwasanaethau i aros yn eu cartrefi eu hunain fel na fydd yn rhaid iddynt fynd yn ôl i'r ysbyty. Bydd deilydd y swydd yn ymateb i atgyfeiriadau gan Glinigwyr a Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Cymunedol a bydd gofyn iddo/iddi feddu ar y gallu i asesu anghenion defnyddwyr gwasanaethau, cwblhau a dilyn cynllun cefnogi ar gyfer yr unigolyn. Bydd deilydd y swydd yn darparu cefnogaeth ymarferol ac emosiynol yng nghartref y defnyddiwr gwasanaethau ac yn eu cyfeirio at wasanaethau eraill lle bo'n briodol er mwyn galluogi unigolion i fyw'n annibynnol yn eu cartref eu hunain.

## Prif gyfrifoldebau

1. Cyflenwi gwasanaethau

> Rhoi cymorth i unigolion y dywed gweithwyr iechyd proffesiynol bod eu hiechyd mewn perygl o ddirywio ymhellach heb gefnogaeth.

> Mynd gyda/mynd â defnyddwyr gwasanaethau i apwyntiadau yn yr ysbyty neu weithgareddau eraill fel sy'n ofynnol yn y cynllun gofal/cefnogaeth gan ddefnyddio eich cerbyd eich hun neu gerbyd sy'n eiddo i'r Groes Goch Brydeinig.

> Meddu ar y gallu i ddarparu asesiad parhaus o anghenion defnyddwyr gwasanaethau, gwneud cynllun cefnogaeth i fodloni'r anghenion hyn a rhoi cefnogaeth briodol i sicrhau canlyniadau cadarnhaol.

> Cofnodi a pharatoi adroddiadau am y gweithgareddau a wnaed a thynnu sylw at unrhyw newidiadau yng nghyflwr defnyddiwr gwasanaethau a sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd os yw iechyd defnyddiwr gwasanaethau yn dirywio.

> Cysylltu â gweithwyr proffesiynol iechyd, tai ac eraill i sicrhau bod anghenion yr unigolyn yn cael eu bodloni'n gyson.

> Sicrhau amgylchedd byw mor ddiogel â phosibl i ddefnyddwyr gwasanaethau drwy wneud asesiadau risg a darparu gwybodaeth/cyngor gan barchu eu hurddas, eu dewis a'u hawliau personol ar yr un pryd.

> Cynnal ymweliadau ac archwiliadau lles dilynol fel sydd angen a helpu defnyddwyr gwasanaethau gyda'u gweithgareddau i ail-alluogi eu sgiliau byw bob dydd am hyd at y cyfnod cefnogi hwyaf.

> Gwneud asesiadau o risg ac anghenion gyda defnyddwyr gwasanaethau, gan gysylltu â'r atgyfeiriwyr fel y bo angen.

> Darparu cefnogaeth ymarferol ac emosiynol megis: benthyg cymhorthion symudedd, cludiant, cwmnïaeth, help gyda siopa, eu helpu i gael mynediad i grwpiau a gweithgareddau

> Cyplysu â gwasanaethau eraill priodol y Groes Goch sy'n helpu i feithrin dycnwch ac annibyniaeth megis gwaith gwirfoddol, gwasanaethau cludiant, benthyg cadeiriau olwyn yn y byrdymor, addysg cymorth cyntaf, argyfwng ariannol a chynlluniau cenedlaethol eraill.

2. Ansawdd a pherfformiad

> Cydymffurfio â pholisïau Iechyd a Diogelwch y Groes Goch Brydeinig, gan gynnwys ei pholisïau ar weithwyr unigol, codi a chario a rheoli heintiau.

> Sicrhau bod y safonau uchaf yn cael eu cyrraedd gan gydymffurfio â gofynion y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) o safbwynt y gwasanaethau hynny sy'n gofrestredig â'r CQC a gyda fframwaith Safonau Ansawdd y BRC.

> Sicrhau bod iechyd a lles defnyddwyr gwasanaethau'n cael eu gwarchod a bod y gweithdrefnau a'r polisïau diogelu yn cael eu dilyn bob amser.

3. Aelod o'r tîm

> Gweithio gyda'ch cydweithwyr i sicrhau bod deddfwriaeth iechyd a diogelwch ac asesiadau risg yn ddealledig ac yn cael eu gweithredu a bod diogelwch staff a gwirfoddolwyr yn cael ei sicrhau.

> Glynu wrth y polisïau a'r gweithdrefnau ynglŷn â diogelu data a chyfrinachedd

> Dilyn hyfforddiant fel sy'n ofynnol a bod yn barod i deithio o fewn yr Ardal i fynychu unrhyw gyfarfodydd perthnasol

> Darparu cefnogaeth fel sy'n ofynnol i swyddogaeth ymateb i argyfyngau cyffredinol y Groes Goch Brydeinig – e.e. cefnogaeth i gydweithwyr Ymateb brys yn ystod llifogydd difrifol.

> Cyflawni unrhyw ddyletswyddau perthnasol eraill y gallant fod yn ofynnol o bryd i'w gilydd.

> Parodrwydd i weithio'n hyblyg o amgylch anghenion y gwasanaeth (gyda'r nosau a phenwythnosau).

Ni chaiff staff wrthod yn afresymol gais i gyflawni unrhyw dasg sy'n briodol i'w lefel ac y mae ganddynt y sgiliau a / neu'r profiad i'w gwneud. Caiff unrhyw newid dilynol i'w hamcanion a'u blaenoriaethau ei drafod a'i gadarnhau gyda'u rheolwr llinell.

# Manyleb y person

DS: caiff y ddogfen hon ei defnyddio i wneud rhestr fer o'r ceisiadau am unrhyw swydd wag ar gyfer y rôl hon ac yna caiff ei defnyddio yn y broses ddethol ddilynol. Caiff wedyn ei defnyddio fel sylfaen ar gyfer cynllun datblygu i'r unigolyn a benodir i'r rôl hon.

| | Gofynion |
|---|---|
| Sgiliau | > Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu rhagorol<br>> Y gallu i weithio fel rhan o dîm ac ar eich liwt eich hun** |

| | |
|---|---|
| | > Y gallu i drefnu eich llwyth gwaith eich hun**<br><br>> Y gallu i ddelio ag ymholiadau mewn ffordd ddiplomatig, broffesiynol a chyfrinachol<br><br>> Sgiliau teleffon da<br><br>> Y gallu i gyfathrebu gyda gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol |
| **Gwybodaeth (gan gynnwys addysg a hyfforddiant)** | > Wedi cael addysg i lefel TGAU (neu gyfatebol drwy brofiad)**<br><br>> Yn llythrennog mewn TG**<br><br>> Gwybodaeth am helpu defnyddwyr gwasanaethau y gallant fod yn anabl a/neu'n fregus, â nam gwybyddol ac â dementia o bosibl a phroblemau iechyd meddwl*<br><br>> Gweithio gydag unigolion sydd â nam synhwyraidd neu gorfforol neu sy'n fregus oherwydd eu hoedran * |
| **Profiad** | > Profiad o wirfoddoli<br><br>> Cyfranogi mewn amgylchedd tîm amlddisgyblaethol**<br><br>> Profiad o gyflenwi gwasanaethau o ansawdd i'r cyhoedd<br><br>> Profiad o ddod o hyd i wybodaeth drwy'r rhyngrwyd a ffynonellau eraill<br><br>> Gwybodaeth am wasanaethau a ddarperir drwy'r GIG a Gofal Cymdeithasol* |
| **Cymwyseddau** | > Yn dal trwydded yrru lawn a mynediad i gar**<br><br>> Cefnogi a goruchwylio prosiectau a gweithgareddau<br><br>> Arwain pobl: Cymell, cyfarwyddo a chefnogi eraill i gyflawni gweledigaeth, cenhadaeth a strategaeth y Groes Goch** |

| | |
|---|---|
| | > Meddwl yn arloesol ac yn greadigol<br>> Rheoli a datblygu eich hun<br>> Recriwtio a dethol unigolion<br>> Cefnogi a datblygu unigolion<br>> Cymryd cyfrifoldeb dros eich penderfyniadau a'ch gweithredoedd eich hun a'ch tîm |
| | > Gwybodaeth am yr ardal leol<br>> Y gallu i fonitro gweithdrefnau ariannol lleol<br>> Dealltwriaeth o sut i wella ansawdd gwasanaethau er budd defnyddwyr<br>> Gwybodaeth ddigonol am arferion iechyd a diogelwch<br>> Dealltwriaeth o'r broses Asesu Risg |

| Ymddygiad | CANOLBWYNTIO AR BOBL MEWN ARGYFWNG<br>> Yn canfod ffyrdd o ddiffinio a gwella gwasanaethau’n barhaus ar gyfer pobl mewn argyfwng<br><br>ATEBOL AM ADNODDAU<br>> Yn cydnabod ac yn cyfleu wrth eraill ein cyfrifoldeb i’n rhoddwyr a’n cefnogwyr i wneud y gorau o’r arian a’r adnoddau<br><br>CEISIO MWY O WYBODAETH<br>> Yn canfod y rheini sydd agosaf at y mater ac yn ymchwilio ymhellach<br><br>CROESAWU AC ARWAIN NEWID<br>> Yn goresgyn rhwystrau ac yn delio â gwrthwynebiad i wneud pethau’n wahanol, yn sensitif ac â pharch<br><br>GWEITHIO’N GYDWEITHREDOL<br>> Yn helpu eraill i ddeall y tir cyffredin<br><br>CYFATHREBU A DYLANWADU<br>> Yn addasu eu dull o gyfathrebu a’u neges ar gyfer cynulleidfa benodol<br><br>ARWAIN AC YMGYSYLLTU<br>> Yn cysylltu â’r tîm / unigolion ynglŷn â materion sy’n effeithio arnynt |
|---|---|

| | |
|---|---|
| | DATBLYGU CHI’CH HUN AC ERAILL<br>> Yn helpu datblygiad pobl eraill drwy rannu gwybodaeth, sgiliau a dysgu<br><br>CANOLBWYNTIO AR ATEBION<br>> Yn rhagweld rhwystrau, yn meddwl ymlaen am y camau nesaf a’r cynlluniau wrth gefn<br><br>RHEOLI EFFAITH BERSONOL<br>> Yn rôl-fodel i ymddygiad da er mwyn cyflawni gweledigaeth y sefydliad |

| | |
|---|---|
| **Gofynion ychwanegol** | > Yn cynnal yr Egwyddorion Sylfaenol ac yn gweithredu gydag uniondeb, yn unol â rhwymedigaethau a gwerthoedd y Gymdeithas (cynhwysol, trugarog, dewr, a dynamig).<br><br>> Yn sicrhau ymarfer gwrth-wahaniaethol ac yn hybu amrywiaeth.<br><br>> Parodrwydd i weithio oriau hyblyg**<br><br>> Parodrwydd i ddilyn hyfforddiant fel y bo angen<br><br>> Yn gallu teithio o amgylch yr ardal fel y bo angen |

*DS Bydd yr holl ymgeiswyr anabl sy'n bodloni'r meini prawf gofynnol, a nodir gyda **, yn cael eu rhoi ar y rhestr fer i gael cyfweliad yn unol â'n hymrwymiad dan y cynllun symbol dau dic*.